



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2009 Rhif 579 (Cy.55) (C.50)

2009 No. 579 (W.55) (C.50)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

TRANSPORT, WALES

Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth
Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a
Darpariaethau Trosiannol) (Cymru)
2009

The Local Transport Act 2008
(Commencement No. 1 and
Transitional Provisions) (Wales)
Order 2009

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008 ("y Ddeddf") i rym ar 1 Ebrill 2009.

This Order brings into force on 1 April 2009 the following provisions of the Local Transport Act 2008 ("the Act").

Rhan 2

Part 2

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â chynlluniau trafniadaeth lleol. Tra bod y Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r trefniadau yn Lloegr, cedwir y trefniadau presennol yng Nghymru.

Part 2 of the Act makes amendments to the Transport Act 2000 in relation to local transport plans. Whilst the Act makes changes to the arrangements in England, existing arrangements in Wales are preserved.

Mae adrannau 7 ac 8 o'r Ddeddf, ynghyd ag Atodlen 1, yn mewnosod y term newydd "local transport policies" yn Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Caiff y term ei ddiffinio fel y polisïau a ddatblygir o dan adran 108(1)(a) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

Sections 7 and 8 of the Act, together with Schedule 1, insert the new term "local transport policies" into Parts 2 and 3 of the Transport Act 2000. This term is defined as the policies developed under section 108(1)(a) of the Transport Act 2000.

Mae adran 9 yn cadw, o ran Cymru, y ddyletswydd yn adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 ar awdurdodau trafniadaeth lleol i gynhyrchu cynllun trafniadaeth lleol. Mae adran 9(1) yn darparu fod yn rhaid i Gynllun Trafnidiaeth Lleol, yng Nghymru, fod yn ddogfen sy'n cynnwys polisïau trafniadaeth lleol sy'n cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Section 9 preserves, in relation to Wales, the duty in section 108 of the Transport Act 2000, for local transport authorities to produce a local transport plan ("LTP"). Section 9(1) provides that an LTP in Wales must be a document containing local transport policies in line with the Wales Transport Strategy.

Mae adran 10 yn diddymu'r gofyn sydd o dan Ddeddf Drafnidiaeth 2000 i awdurdodau trafniadaeth lleol baratoi strategaeth i fysiau. Yn canlyn o hyn, mae is-adrannau (8) i (11) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Trafnidiaeth 1968 ac i Ddeddf Trafnidiaeth 1985.

Section 10 repeals the requirement under the Transport Act 2000 for local transport authorities to prepare a bus strategy. Following on from this, subsections (8) to (11) make consequential amendments to the Transport Act 1968 and the Transport Act 1985.

Mae adran 11 yn diwygio'r ddyletswydd a roddir ar awdurdodau trafniadaeth lleol yn adran 112(2) o Ddeddf Trafniadaeth 2000 i roi sylw i anghenion pobl oedranus neu'r rheini sydd ag anableddau wrth ddatblygu'u polisïau.

Mae adran 12 yn symud ymaith y ddyletswydd ar y cyd a fodolai gynt ar Awdurdodau Trafniadaeth i Deithwyr a chynghorau dosbarth metropolitan mewn ardal trafniadaeth i deithwyr yn Lloegr i gynhyrchu cynllun trafniadaeth lleol o dan adran 108(1)(a), ac yn gosod y ddyletswydd yn y dyfodol yn gyfan-gwbl gyda'r Awdurdod Trafniadaeth Integredig.

Rhan 3

Mae adran 13 yn diwygio adran 114 o Ddeddf Trafniadaeth 2000. Mae adran 13(2) yn disodli'r gofyn sydd ar awdurdod trafniadaeth lleol i fod wedi'i fodloni y byddai cynllun partneriaeth ansawdd yn gweithredu polisïau a osodir yn y strategaeth fysïau. Mae'r diwygiad hwn yn ganlyniad i gychwyn adran 10 o'r Ddeddf, sy'n symud ymaith y gofyn ar awdurdod trafniadaeth lleol i gynhyrchu strategaeth fysïau.

Mae adran 46 yn cyflwyno diffiniad statudol o gytundebau partneriaeth wirfoddol. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Ddeddf. Mae'r darpariaethau yn Atodlen 2 yn diwygio'r prawf cystadleuaeth yn Atodlen 10 i Ddeddf Trafniadaeth 2000 (y prawf cystadleuaeth ar gyfer swyddogaethau bysïau).

Rhan 4

Mae adrannau 64 a 65 yn diwygio adran 155 o Ddeddf Trafniadaeth 2000. Mae'r darpariaethau newydd yn ymestyn pwerau comisiynwyr traffig i osod cosbau pan nad yw gwasanaethau bysïau lleol yn cael eu rhedeg yn ôl fel y'u cofrestrwyd, neu os yw'r gweithredyddion yn methu â darparu'r data perfformiad a ragnodwyd. Mae adran 64 yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol sy'n rhwystro defnyddio'r pwerau newydd mewn perthynas â methiannau a ddigwyddodd cyn i'r adran hon ddod i rym.

Mae adrannau 68 i 70 yn ymestyn pwerau'r Awdurdodau Trafniadaeth i Deithwyr a'r Weithrediaeth, yr awdurdodau lleol, a Gweinidogion Cymru i roi cymhorthdal i ddarparu gwasanaethau trafniadaeth o fathau penodol i deithwyr.

Mae adran 71 yn symud ymaith anableddau penodol a gofynion penodol ar awdurdodau lleol i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chwmnïau trafniadaeth gyhoeddus. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn yr Atodlen yn darparu na fydd ar unrhyw geisiadau am gydsyniad sydd heb eu penderfynu ar y dyddiad y daw'r adran hon i rym bellach angen cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Section 11 amends the duty upon local transport authorities in section 112(2) of the Transport Act 2000 to have regard to the needs of elderly persons or those with disabilities when developing their policies.

Section 12 removes the previous joint duty on Passenger Transport Authorities and metropolitan district councils in a passenger transport area in England to produce a local transport plan under section 108(1)(a), and place the duty in future solely with the Integrated Transport Authority.

Part 3

Section 13 amends section 114 of the Transport Act 2000. Section 13(2) replaces the requirement for a local transport authority to be satisfied that a quality partnership scheme would implement policies set out in the bus strategy. This amendment is consequential on the commencement of section 10 of the Act, which removes the requirement for a local transport authority to produce a bus strategy.

Section 46 introduces a statutory definition of voluntary partnership agreements. This section also introduces Schedule 2 to the Act. The provisions in Schedule 2 amend the competition test in Schedule 10 to the Transport Act 2000 (competition test for exercise of bus functions).

Part 4

Sections 64 and 65 amend section 155 of the Transport Act 2000. The new provisions extend the powers of traffic commissioners to impose penalties where local bus services are not operated as registered, or where operators fail to provide prescribed performance data. Section 64 is subject to transitional arrangements which prevent the use of the new powers in respect of failures which took place before the coming into force of this section.

Sections 68 to 70 extend the powers of Passenger Transport Authorities and Executives, local authorities, and the Welsh Ministers to subsidise the provision of certain passenger transport services.

Section 71 removes certain disabilities and requirements for local authorities to seek the consent of the Welsh Ministers in connection with public transport companies. The transitional provision in the Schedule provides that any applications for consent which are outstanding on the date on which this section comes into force will no longer require the consent of the Welsh Ministers.

Mae adran 75 yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gyrff penodol arddangos gwybodaeth ragnodedig sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Rhan 6

Caiff Rhan 6 ei chychwyn, ac eithrio adrannau 119 a 120. Mae adran 6 yn diwygio, o ran Cymru, y darpariaethau yn Rhan 3 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 sy'n ymwneud â chynlluniau codi taliadau lleol.

Section 75 empowers the Welsh Ministers to require certain bodies to display prescribed transport-related information.

Part 6

Part 6 of the Act is commenced, save for sections 119 and 120. Part 6 amends, in relation to Wales, provisions in Part 3 of the Transport Act 2000 relating to local charging schemes.

2009 Rhif 579 (Cy.55) (C.50)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

**Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth
Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a
Darpariaethau Trosiannol) (Cymru)
2009**

Gwnaed

9 Mawrth 2009

Yn dod i rym

1 Ebrill 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 134(6) o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008(1), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 1985;(2); ac

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 2000 (3);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth Leol 2008;

Cychwyn ar ddarpariaethau trafndiaeth leol o ran Cymru

2. 1 Ebrill 2009 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dyfod i rym y darpariaethau canlynol o'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn—

- (a) Adran 7, ac yn unol â hynny Atodlen 1.
- (b) Adran 8 i adran 12 yn gynhwysol.
- (c) Adran 13(1) (i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 13(2)) ac adran 13(2).

(1) 2008 p.26.

(2) 1985 p.67.

(3) 2000 p.38.

2009 No. 579 (W.55) (C.50)

TRANSPORT, WALES

**The Local Transport Act 2008
(Commencement No. 1 and
Transitional Provisions) (Wales)
Order 2009**

Made

9 March 2009

Coming into force

1 April 2009

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by section 134(6) of the Local Transport Act 2008(1), make the following Order:

Title, application and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Local Transport Act 2008 (Commencement No.1 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2009 and it applies in relation to Wales.

(2) In this Order—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Transport Act 2008;

"the 1985 Act" ("*Deddf 1985*") means the Transport Act 1985(2); and

"the 2000 Act" ("*Ddedf 2000*") means the Transport Act 2000(3).

Commencement of local transport provisions in relation to Wales

2. 1 April 2009 is the appointed day for the coming into force of the following provisions of the Act, subject to the transitional provisions listed in the Schedule to this Order—

- (a) Section 7, and accordingly Schedule 1.
- (b) Section 8 to section 12 inclusive.
- (c) Section 13(1) (insofar as it relates to section 13(2)) and section 13(2).

(1) 2008 c.26.

(2) 1985 c.67.

(3) 2000 c.38.

- | | |
|---|---|
| (ch) Adran 46, ac yn unol â hynny, Atodlen 2. | (d) Section 46, and accordingly Schedule 2. |
| (d) Adran 64. | (e) Section 64. |
| (dd) Adran 65(1). | (f) Section 65(1). |
| (e) Adran 68(1) (i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 68(3)) ac adran 68(3). | (g) Section 68(1) (insofar as it relates to section 68(3)) and section 68(3). |
| (f) Adran 69 i adran 71 yn gynhwysol. | (h) Section 69 to section 71 inclusive. |
| (ff) Adran 75. | (i) Section 75. |
| (g) Adran 103 i adran 108 yn gynhwysol. | (j) Section 103 to section 108 inclusive. |
| (ng) Adran 109, ac, yn unol â hynny, Atodlen 5. | (k) Section 109, and accordingly Schedule 5. |
| (h) Adran 110 i adran 111 yn gynhwysol. | (l) Section 110 to section 111 inclusive. |
| (i) Adran 112(1). | (m) Section 112(1). |
| (j) Adran 113(1) i (4) yn gynhwysol. | (n) Section 113(1) to (4) inclusive. |
| (l) Adran 114. | (o) Section 114. |
| (ll) Adran 115(1) i (2) yn gynhwysol. | (p) Section 115(1) to (2) inclusive. |
| (m) Adran 116(1) i (3) yn gynhwysol. | (q) Section 116(1) to (3) inclusive. |
| (n) Adran 117(1). | (r) Section 117(1). |
| (o) Adran 118(1) i (5) yn gynhwysol. | (s) Section 118(1) to (5) inclusive. |
| (p) Adran 121 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o Atodlen 6) a Rhan 1o Atodlen 6. | (t) Section 121 (insofar as it relates to Part 1 of Schedule 6) and Part 1 of Schedule 6. |

Ieuan Wyn Jones

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

9 Mawrth 2009

Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

9 March 2009

DARPARIAETHAU TROSIANNOL

1. Er gwaethaf dyfod i rym adran 10 o'r Ddeddf, bydd strategaeth fysiau a baratowyd gan awdurdod trafndiaeth lleol yn unol ag adran 110 o Ddeddf 2000 (strategaethau bysiau) yn parhau i gael effaith o ran adran 124(1)(a) o'r Ddeddf honno (cynlluniau contractau o ansawdd).

2. Er gwaethaf dyfod i rym adran 64 o'r Ddeddf, bydd adran 155 o Ddeddf 2000 (cosbau) yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru heb y diwygiadau a wnaed gan adran 64 o'r Ddeddf o ran cosbau a osodir gan gomisiynydd traffig yn erbyn gweithredydd gwasanaeth lleol os yw'r comisiynydd traffig hwnnw wedi'i fodloni fod y gweithredydd, cyn 1 Ebrill 2009—

- (a) wedi methu â gweithredu gwasanaeth lleol a gofrestrwyd o dan adran 6 o Ddeddf 1985,
- (b) wedi gweithredu gwasanaeth lleol yn groes i'r adran honno neu i adran 118(4) neu 129(1)(b) o Ddeddf 2000, neu
- (c) wedi methu â chydymffurfio ag adran 138 neu 140(3) o Ddeddf 2000.

3.—(1) Er gwaethaf dyfod i rym adran 71 o'r Ddeddf, rhaid ymdrin ag unrhyw gais a wneir cyn 1 Ebrill 2009 ac sy'n ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru o dan unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 1985 a restrir yn is-baragraff (2), ond na chafwyd penderfyniad arno erbyn y dyddiad hwnnw, megis petai'r cais hwnnw wedi cael ei wneud ar 1 Ebrill 2009 neu ar ôl hynny.

(2) Dyma'r darpariaethau—

- (a) adran 75(3) (tanysgrifio am gyfrannau, sicrydau neu eiddo neu asedau eraill penodol, neu eu caffael, eu gwaredu etc);
- (b) adran 79(3) (gwneud neu warantu benthyciadau penodol);
- (c) adran 79(7) (gwarannau etc mewn cysylltiad â gwaredu cyfrannau, sicrydau neu eiddo neu asedau eraill penodol etc); ac
- (ch) adran 79(8) (darparu cymorth ariannol ar ffurf grantiau, benthyciadau, etc).

TRANSITIONAL PROVISIONS

1. Notwithstanding the coming into force of section 10 of the Act, a bus strategy prepared by a local transport authority in accordance with section 110 of the 2000 Act (bus strategies) will continue to have effect as respects section 124(1)(a) of that Act (quality contracts schemes).

2. Notwithstanding the coming into force of section 64 of the Act, section 155 of the 2000 Act (penalties) will continue to apply in Wales without the amendments made by section 64 of the Act in respect of penalties imposed by a traffic commissioner against an operator of a local service where that traffic commissioner is satisfied that the operator had, before 1 April 2009—

- (a) failed to operate a local service registered under section 6 of the 1985 Act,
- (b) operated a local service in contravention of that section or section 118(4) or 129(1)(b) of the 2000 Act, or
- (c) failed to comply with section 138 or 140(3) of the 2000 Act.

3.—(1) Notwithstanding the coming into force of section 71 of the Act, any application which is made before 1 April 2009 and which seeks the consent of the Welsh Ministers under any of the provisions of the 1985 Act listed in sub-paragraph (2), but which has not been determined by that date, is to be dealt with as if that application had been made on a date on or after 1 April 2009.

(2) The provisions are—

- (a) section 75(3) (subscription for, or acquisition or disposal of, certain shares, securities or other property or assets etc);
- (b) section 79(3) (making or guaranteeing of certain loans);
- (c) section 79(7) (guarantees etc in connection with disposals of certain shares, securities or other property or assets etc); and
- (d) section 79(8) (provision of financial assistance by way of grants, loans, etc).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 579 (Cy.55) (C.50)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth
Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a
Darpariaethau Trosiannol) (Cymru)
2009

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2009 No. 579 (W.55) (C.50)

TRANSPORT, WALES

The Local Transport Act 2008
(Commencement No. 1 and
Transitional Provisions) (Wales)
Order 2009

£5.50

W451/04/09

ON